**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (116)**
**Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Y cwestiynau**

......................................

## Eitem 2

**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**Y cwestiynau**

......................................

## Eitem 3

**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**

**Y cwestiynau**

......................................

## Eitem 4

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn y Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 i Brif Weinidog Cymru -** ***TYNNWYD YN OL***

**NDM2273 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn dirprwyo'r holl swyddogaethau a drosglwyddwyd iddo gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (OS 2004 Rhif 3044) i Brif Weinidog Cymru, ac eithrio'r rhai hynny na ellir yn gyfreithiol eu dirprwyo.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei wneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n briodol.

*Gellir gweld copi o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 ar y rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt isod: http://www.hmso.gov.uk/cgi-bin/htm_hl.pl?DB=hmso-new&STEMMER=en&WORDS=2004+3044+&COLOUR=Red&STYLE=s&URL=http://www.hmso.gov.uk/si/si2004/20043044.htm#muscat_highlighter_first_match*

**.......................................**

**Eitem 5**

**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig: Dyrannu arian i awdurdodau lleol ar gyfer gwaredu oergelloedd domestig**

**NDM2274 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 7) (Cymru 2004) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ionawr 2005.

**<u>Dogfen Ategol</u>**

Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 7) (Cymru 2004)

………………………………

**Eitem 6**

**Dadl ar y Strategaeth Diwydiannau Creadigol**

**NDM2275 Jane Hutt ( Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn croesawu Strategaeth Diwydiannau Creadigol Llywodraeth y Cynulliad a lansiwyd ym mis Tachwedd 2004.

2. Yn cydnabod manteision y Strategaeth Diwydiannau Creadigol i'r sector ac i economi Cymru.

*Gellir gweld copi o'r Strategaeth drwy ddefnyddio'r cyswllt isod:*
*Saesneg: http://www.wales.gov.uk/subitradeindustry/content/wda-creative-wp-e.pdf*
*Cymraeg: http://www.cymru.gov.uk/subitradeindustry/content/wda-creative-wp-w.pdf*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
***Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:***

***(1)***
***(2), (3), (4), (5), (6), & (7)***

**Gwelliant 1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth ar ôl "Cymru" ac ychwanegu :

Yn gresynu at fethiant Strategaeth Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran cynnwys holl ddiwydiannau creadigol Cymru.

**Gwelliant 2. David Melding (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, yn rhoi 'Nodi' yn lle 'Croesawu'.

**Gwelliant 3. David Melding (Canol De Cymru)**

Yn rhoi'r canlynol yn lle pwynt 2:

Yn cydnabod y manteision economaidd a fyddai'n deillio o ddatblygu'r diwydiannau creadigol ymhellach yng Nghymru.

**Gwelliant 4. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn credu bod strategaeth diwydiannau creadigol effeithiol yn dibynnu ar gael canlyniadau mesuradwy a darparu manteision gwirioneddol.

**Gwelliant 5. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn gresynu at fethiant Strategaeth y Diwydiannau Creadigol o ran cymryd i ystyriaeth yr ansicrwydd sy'n wynebu'r sector darlledu yng Nghymru.

**Gwelliant 6. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod yr arferion da sydd eisoes yn bodoli yn y mentrau hyfforddi a arweinir gan ddiwydiant.

**Gwelliant 7. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cydnabod yr angen am gronfa Eiddo Deallusol i gynorthwyo mentergarwch, arloesi a datblygu busnesau cynhenid, a hynny er mwyn ategu amcanion Cymru'n Ennill.

***Gellir cael copi o Cymru'n Ennill drwy fynd i'r canlynol:***

***http://www.cymru.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/neds/awinningwales-0302-e.pdf***

......................................

**Eitem 7**

**Y Ddadl Fer**

**NDM2272 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni): Rhagoriaeth ym maes Adeiladu: Agenda Sgiliau Cymru**

......................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

......................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 8 Chwefror 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**